# Cofnodion Bwrdd wedi eu cadarnhau

| | |
|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod** | **Cyfarfod Bwrdd CNC (Diwrnod 2) – Sesiwn Gyhoeddus** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 16 Medi 2020 Lleoliad: Skype |
| **Amser y Cyfarfod:** | 09.00 |
| **Aelodau'r Bwrdd a oedd yn Bresennol** | Syr David Henshaw, Cadeirydd<br>Clare Pillman, Prif Weithredwr<br>Yr Athro Steve Ormerod, Is-gadeirydd<br>Karen Balmer<br>Catherine Brown<br>Julia Cherrett<br>Geraint Davies<br>Howard Davies<br>Dr Elizabeth Haywood<br>Zoë Henderson<br>Dr Rosie Plummer<br>Yr Athro Peter Rigby |
| **Y Tîm Gweithredol a oedd yn bresennol** | Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid<br>Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu<br>Prys Davies, Cyfarwyddwr Strategaeth Gorfforaethol a Datblygu<br>Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol<br>Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau |
| **Unigolion Ychwanegol a oedd yn Bresennol:** | Catrin Hornung, Pennaeth Cyfathrebu – Pob eitem<br>Helen John, Pennaeth Llywodraethu – Pob eitem<br>Steve Burton, Pennaeth Gwasanaethau Pobl – Eitem 4 |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Natalie Williams<br>Rhiannon Spencer |
| **Arsylwyr Cyhoeddus:** | Daniel Willis (Vattenfall)<br>Gareth Wardell |

## Eitem 1 Agor y cyfarfod

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i ail ddiwrnod y cyfarfod, a'r sesiwn gyhoeddus gyntaf oddi ar fis Mawrth a dechrau COVID-19.

2. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na datganiadau o fuddiant.

3. Amlinellodd y Cadeirydd gwrs y cyfarfod, a fyddai'n dilyn fformat arferol y Bwrdd, a nododd y byddai'r gwesteion yn cael eu gwahodd i gymryd rhan mewn deialog yn ddiweddarach yn y cyfarfod. Aeth ati hefyd i bwysleisio'r defnydd o swyddogaeth sgwrsio Skype, lle byddai croeso i'r rhai a oedd yn bresennol gyflwyno cwestiynau a sylwadau.

---

## Eitem 2 Busnes y Cadeirydd

1. Diolchodd y cadeirydd i'r tîm cyfan a holl staff CNC am eu hymdrechion eithriadol yn ystod y cyfnod anodd iawn hwn.

2. Rhoddodd y Cadeirydd yr wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect Adferiad Gwyrdd a'r cynigion a oedd yn dod i'r amlwg yn rhan o'r broses. Ychwanegodd fod y gwaith o werthuso'r cynlluniau yn cael ei gyflawni gan grŵp llywio, gyda'r bwriad o roi'r rhestr o gynlluniau ac argymhellion gerbron Llywodraeth Cymru ganol mis Hydref. Pwysleisiodd yr angen i gyflawni'r cynlluniau arfaethedig.

---

## Eitem 3 Adroddiad y Prif Weithredwr

3. Nododd y Prif Weithredwr pa mor braf oedd cael gweithredu mewn sesiwn gyhoeddus unwaith eto. Myfyriodd ar ddigwyddiadau'r cyfnod oddi ar y sesiwn gyhoeddus ddiwethaf.

4. Eglurodd y Prif Weithredwr fod y glawiad eithafol trwy gydol mis Chwefror wedi achosi llifogydd dinistriol a oedd wedi effeithio ar fywydau a bywoliaethau pobl. Estynnodd ei chydymdeimlad i bawb a gafodd eu heffeithio gan y llifogydd, a diolchodd i dîm CNC a'r gwasanaethau brys eraill am eu cymorth.

5. Roedd y llifogydd yn ddifrifol ac, yn dilyn y broses adfer, roedd adolygiad mawr o'r digwyddiadau ac o ymateb CNC wedi cael ei gynnal.

6. Nodwyd y byddai digwyddiadau o'r fath yn dod yn fwy cyffredin ac yn fwy difrifol wrth i'r hinsawdd newid, ac y byddai hynny'n parhau i effeithio ar gymunedau ac unigolion ledled Cymru, ac felly hefyd ar CNC.

7. Eglurodd y Prif Weithredwr mai prin yr oedd CNC wedi cyrraedd y cam adfer yn dilyn y llifogydd cyn symud ymlaen i baratoi ar gyfer dyfodiad pandemig COVID-19 ym mis Mawrth. Nododd yn benodol ymdrechion yr adran TGCh, a sicrhaodd fod y staff yn gallu gweithio gartref mewn modd effeithiol.

---

8. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd CNC wedi parhau i ymateb i ddigwyddiadau mawr, cynnal y gwaith o gynhyrchu pren o'n coedwigoedd, a pharhau i drwsio ac arolygu asedau llifogydd.

9. Cyflwynodd y Prif Weithredwr y ddau aelod newydd o'r Tîm Gweithredol i'r cyfarfod, sef Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfarwyddwr Gweithredol Cwsmeriaid a Masnachol, a nododd fod y Tîm Gweithredol bellach yn gyflawn.

10. Nododd Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu fod meysydd ffocws yn cael eu symud yn barod ar gyfer cyfnod pontio Brexit, a bod gwaith pwysig yn cael ei wneud mewn cydweithrediad â llywodraethau ledled y Deyrnas Unedig, ac yn bennaf â Llywodraeth Cymru, mewn perthynas ag Egwyddorion Amgylcheddol yr Undeb Ewropeaidd.

## Eitem 4 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

11. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Strategaeth Gorfforaethol a Datblygu yr eitem, ynghyd â chyd-destun ar ei chyfer. Eglurodd fod y cynllun cydraddoldeb wedi cael ei lunio ar y cyd ag amrywiaeth o sefydliadau yn y sector cyhoeddus.

12. Eglurodd fod y gweithgor o'r farn bod yna sylfaen dda yn CNC a fyddai'n cefnogi amcanion y cynllun cydraddoldeb ehangach, er enghraifft rhwydweithiau staff, cysylltiadau ag amrywiaeth o randdeiliaid, a diwylliant a gwerthoedd sefydliadol da. Roedd y grŵp am gyfleu ffocws cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn well, yn ogystal â'r modd y gall yr aelodau helpu i gyflawni amcanion strategol CNC.

13. Roedd hyn yn her ar y cyd i aelodau'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol ei llywio er mwyn i CNC fod yn effeithiol, fel sefydliad, o ran Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant. Argymhellwyd y dylai'r Bwrdd gytuno ar y drafft o'r cynllun cydraddoldeb unigol er mwyn sicrhau cydymffurfedd â chyfrifoldebau'r sector cyhoeddus o ran cydraddoldeb.

14. Dywedodd y Pennaeth Rheoli Pobl fod y cynllun hwn wedi cael ei lunio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus a restrwyd. Y bwriad oedd denu cymorth allanol i ddatblygu'r amcanion a rennir ymhellach er mwyn llunio gwell set o egwyddorion diwylliannol.

**CYMERADWYWYD: Cefnogodd y Bwrdd y cynllun gweithredu a'r amcanion, a chytunodd i'w symud ymlaen ac ailedrych arnynt yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr.**

## Eitem 5 Dangosfwrdd perfformiad y Cynllun Busnes ar gyfer 2020-21 Ch1 (yn cynnwys Diweddariad ar Wasanaethau Cwsmeriaid ddwywaith y flwyddyn)

15. Cyflwynodd y Prif Weithredwr yr eitem, a rhoddodd gyflwyniad a oedd yn ystyried perfformiad CNC ar gyfer Chwarter 1 2020-21 (h.y. hyd at fis Mehefin 2020).

16. Yn ystod y cyfnod anarferol iawn hwn, roedd adolygiad mawr o'r Cynllun Busnes wedi cael ei gynnal, a gafodd ei gymeradwyo yng nghyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 15 Medi.

17. Roedd y cyflwyniad yn tynnu sylw at bum blaenoriaeth strategol: ymateb i'r argyfwng hinsawdd; ymateb i'r argyfwng natur; datblygu a defnyddio ein tystiolaeth gyda phartneriaid i eirioli dros Reolaeth Gynaliadwy o Adnoddau Naturiol, a'i chyflawni; datblygu CNC i fod yn sefydliad rhagorol sy'n gwasanaethu cymunedau Cymru; ymateb i'r ffaith bod y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd ac unrhyw gyfleoedd a allai ddod yn sgil hynny.

18. O ran llesiant staff, rhoddodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau ddiweddariad ar y fenter Amser i Siarad.

19. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gweithredol at farwolaeth Stephen Marsh-Smith, gan gydnabod ei fod yn ffrind da i CNC ac yn hyrwyddwr gwych ar gyfer ansawdd afonydd a dŵr yng Nghymru ac y byddai yna golled fawr ar ei ôl.

20. Cadarnhawyd y byddai Archwiliad Safon Sicrwydd Coetir y Deyrnas Unedig (UKWAS) yn parhau i gael ei gynnal ddechrau mis Hydref, ac y byddai hwn yn ymarfer desg o ganlyniad i COVID-19.

21. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol ddiweddariad ar y Rhaglen Cwsmeriaid, ac eglurodd fod yna ddealltwriaeth glir o'r cyfeiriad dymunol ar gyfer strategaeth y Gwasanaeth Cwsmeriaid.

## Diwedd cyfarfod y Bwrdd

## Eitem 6 Sesiwn Holi ac Ateb Ryngweithiol gyda'r Cyhoedd

22. Croesawodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan y cyhoedd. Trafodwyd y pynciau canlynol:

- Y Strategaeth Fasnachol. Rhoddwyd sicrwydd y byddid yn ymgysylltu â chwsmeriaid wrth ddrafftio'r strategaeth, gyda'r nod iddi fynd yn fyw ym mis Ebrill ar ffurf strategaeth a luniwyd ar y cyd.
- Yr oedi o ran nodi safleoedd newydd ar Ystadau Coetir Llywodraeth Cymru ar gyfer ffermydd gwynt adnewyddadwy ar y tir.

**CAM GWEITHREDU: Cytunodd y Prif Weithredwr i ysgrifennu at Mr Gareth Wardell i amlinellu sefyllfa CNC o ran prosiect Brechfa Dau – Swyddfa'r Prif Swyddog Gweithredol**

## Diwedd cyfarfod y Bwrdd